# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
# CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT: Grant Refeniw i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy/ *The Environment and Sustainable Development Directorate's Single revenue grant to local authorities in Wales*

---

AELOD CABINET/CABINET MEMBER

Y Cynghorydd John Wynn Jones/ *Councillor John Wynn Jones*

---

PENDERFYNIAD/DECISION

Rhannu grant Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyllideb 2014/15 gan gymryd gostyngiad o 3.5%, sy'n seiliedig ar y gostyngiad sydd wedi ei ddarparu gan y Llywodraeth, ar gyfer 2015/16. Golygir hyn y gyllideb ganlynol ar gyfer 2015/16:

Rhaglen Trefi Taclus - £82,970
Rheoli Gwastraff Cynaliadwy - £3,488,470
Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol- £96,480

*Share the Environment and Sustainable Development Directorate's grant by the Welsh Government based on the 2014/15 budget taking into account a 3.5% decrease, based on the reduction provided by the Government, for 2015/16. This means the following budget applies for 2015/16:*

*Tidy Towns program - £82,970*
*Sustainable Waste Management - £3,488,470*
*Flood Risk Management and Erosion Arfordirol- £96,480*

---

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

O fis Ebrill 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru un grant newydd yn lle'r amrywiaeth bresennol o grantiau refeniw uniongyrchol Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, sydd yn cwmpasu holl gyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth.

Rhaid i'r gwaith a wneir gan ddefnyddio'r arian fod yn rhan o gylch gwaith Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy a rhaid iddo fynd i'r afael â blaenoriaethau'r Gweinidog, sef:

- Annog twf gwyrdd
- Gwydnwch a diogelwch
- Cydweithio er mwyn darparu gwasanaethau gwell a sicrhau darpariaeth rheng flaen
- Cymru decach

Trafodwyd y mater mewn Timau Rheoli a derbyniodd sylw gan Reolwyr y Gwasanaethau perthnasol ynghyd a staff eraill. Bu hefyd ymgynghori rhwng yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac yr Adran Ymgynghoriaeth o safbwynt defnydd a rhaniad y grant. Deuthum i'r canlyniad ar gyfer 2015/16 i barhau gyda'r rhaniad presennol o fewn y gyllideb, gan gymryd gostyngiad o 3.5% yn seiliedig ar y gostyngiad gan y Llywodraeth.

Mae hyn yn y ddealltwriaeth y bydd adolygiad o'r sefyllfa yn cael ei wneud yn ystod 2015/16 er mwyn ystyried a ddylid newid y pwyslais o 2016/17 ymlaen. Bydd cyfle wedyn i ail-flaenoriaethu gan ystyried gwir oblygiadau unrhyw benderfyniad.

Felly, ar gyfer 2015-16 bydd y prosiectau canlynol yn cael eu gweithredu trwy grant Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy;

Rhaglen Trefi Taclus
Ar gyfer y rhaglen bydd ffrydiau gwaith canlynol yn cael eu gweithredu;

- Arian "Hanfodol" Trefi Taclus
- Ymgyrchoedd Glanhau Cymunedol
- Rhaglen Blitz
- Sioe Deithiol Amgylcheddol

- Ymgyrch Baw Cŵn Trefi Taclus
- Plannu Coed Trefol

Rheoli Gwastraff Cynaliadwy:
Ar gyfer y cynllun bydd y ffrydiau gwaith canlynol yn cael eu gweithredu;

- Hanfodol – casgliadau deunyddiau ailgylchu wythnosol wedi didoli
- Casgliadau Bwyd Wythnosol
- Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hanfodol o gasgliadau ailgylchu bwyd drwy'r Sir

Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol:
Ar gyfer y cynllun bydd y ffrydiau gwaith canlynol yn cael eu gweithredu;

- Deddf Llifogydd a Dŵr.
- Rheoli Llifogydd Dalgylch Eang
- Cynllun Rheoli Traethlin 2
- Codi Ymwybyddiaeth o lifogydd a gwytnwch
- Rheoli asedau
- Adroddiad Gweinidog llifogydd gaeaf 2013/14 – Ymateb i 47 argymhellion

*From April 2015, the Welsh Government introduced a new grant to replace the current range of direct revenue grants by the Directorate of Environment and Sustainable Development, which encompasses all the responsibilities of the Directorate.*

*The work undertaken using the funding must fall within the remit of the Environment and Sustainable Development Directorate and must address the Minister's priorities:*

- *Driving green growth*
- *Resilience and safety*
- *Working together to deliver better services and ensuring frontline delivery*
- A fairer Wales

*The mater was discussed in Management Meetings and received attention by relevant Service Managers and other staff. There was also consultation between the Highways and Municipal Department and the Consultancy Department in terms of the use and distribution of the grant. The decision was made to continue with the current division of the budget, assuming a decrease of 3.5% based on the reduction by the Government, for 2015/16.*

*This is in the understanding that a review of the situation will be made during 2015/16, in order to consider whether to change the emphasis from 2016/17 onwards. There will then be an opportunity to re-prioritize taking into account the true impact of any decision.*

*Therefore, for 2015-16 the following projects will be implemented through the Directorate of Environment and Sustainable Development's grant;*

*Tidy Towns Program*
*For this program the following work streams will be implemented;*

- *Tidy Towns "Essential" Funding*
- *Community Clean-ups*
- *Blitz Project*
- *Environmental Roadshow*
- *Tidy Towns Dog Fouling Campaign*
- *Urban Tree Planting*

*Sustainable Waste Management*
*For this scheme the following work streams will be implemented;*

- *Essential – weekly collections of sorted recycling materials*
- *Weekly Food Collections:*
- *Raise Awareness of the essential services in recycling and food collections throughout the county*

*Flood and Coastal Erosion Risk Management:*

*For this project the following work streams are implemented;*

- *Flood and Water Act.*
- *Wide Catchment Flood Management*
- *Shoreline Management Plan 2*
- *Raise awareness of flooding and resilience*
- *Asset management*
- *Report 2013/14 winter floods Minister - Response to 47 recommendations*

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

O fewn yr amserlen a roddwyd ar gyfer y gwaith o adnabod gwariant y grant, ac yn gyfyngedig ar y canllawiau a gyflwynwyd, penderfynwyd cyd-fynd gyda'r patrwm gwariant cyfredol. Mae hyn yn y ddealltwriaeth y bydd adolygiad o'r gwariant a blaenoriaethau yn cymryd lle yn ystod 2015/16 er mwyn adnabod y gwerth gorau i drigolion Gwynedd i'r dyfodol.

*Within the time frame given for deciding the grant expenditure, and the limitations of the guidelines presented, a decision was made to align with the current expenditure pattern. This is in the understanding that a review of expenditure priorities will take place during 2015/16 in order to identify the best value for the people of Gwynedd to the future.*

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:- Cytunaf gyda'r argymhelliad.

*I agree with the recommendation.*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:- Mae'r ymateb i'r drefn newydd yn seiliedig ar ddilyn patrwm cyfredol gyda adolygiad ar gyfer y flwyddyn ddilynol yn ymddangos yn rhesymol, dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

*The response to the new procedure based on following the current pattern, with a review the following year, seems reasonable no further comments regarding propriety.*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:- Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Adran Ymgynghoriaeth wedi derbyn gostyngiad 3.5% yn eu rhaniad o'r grant ar gyfer 2015/16. Roedd Priffyrdd a Bwrdeistrefol eisoes wedi rhagweld lleihad yn y grant gwastraff, fel sydd wedi bod yn digwydd dros y blynyddoedd, ac wedi bod yn llwyddiannus gyda 'bid' am £110,000 o gyllideb ychwanegol gan y Cyngor ar gyfer 2015/16. Roedd rhaid i'r ddwy adran ddygymod efo'r diffyg oedd yn weddill trwy ddefnyddio hyblygrwydd gyda chyllidebau adrannol eraill i ariannu rhai gweithgareddau, a gwneud dipyn llai o rai gweithgareddau eraill roedd y grant yma'n ariannu. Bu cytundeb rhwng swyddogion perthnasol ar y rhaniad grant, ac rwy'n cefnogi penderfyniad yr Aelod Cabinet i ffurfioli hynny ar gyfer 2015/16. Mae awgrym ar led bydd y Llywodraeth yn gweithredu toriad mwy llym yn y grant erbyn 2016/17 a thu hwnt, a byddai hynny yn cael effaith mwy andwyol ar wasanaethau craidd yn y maes Amgylchedd.

*The Highways and Municipal Department and the Consultancy Department has received a 3.5% reduction in their division of the grant for 2015/16. The Highways and Municipal Department already anticipated a reduction in the waste grant, as has been happening over the years, and were successful in bidding for an additional £110,000 of funding by the Council for 2015/16. Both departments had to cope with the remaining deficit by using the flexibility of other departmental budgets to fund certain activities, and reducing some other activities the grant previously funded. There is an agreement between the relevant officials on the grant split, and I support the decision of the Cabinet Member to formalize those for 2015/16. It is widely suggested that the Government will implement more stringent cuts to the grant by 2016/17 and beyond, and that would have a more adverse effect on core services in the Environment field.*

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Nid yw hwn yn fater lleol.

*This is not a local matter.*

LLOFNOD /SIGNED



DYDDIAD/DATE

15/10/15